

Fframwaith Cwricwlwm i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

Canllaw i rieni a gofalwyr

Cwestiynau Cyffredin

Rhagymadrodd

At ddibenion y ddogfen hon bydd y termau a'r byrfoddau canlynol yn cael eu defnyddio:

| | |
|---------------------|---|
| CFVI neu fframwaith | Curriculum Framework for Children and Young People with Vision Impairment |
| CYP gyda VI | Plant a phobl ifanc â Nam ar y Golwg |
| Rhiant | Rhiant / gofalwr / teulu |
| QTVI | Athro Cymwysedig Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg |
| RQHS | Arbenigwr Cymhwyso Cymwysedig Cofrestredig |
| EHCP | Cynllun Addysg Iechyd a Gofal |

Trosolwg o'r CFVI

Mae'r CFVI yn ddogfen DU gyfan sy'n nodi'r meysydd datblygu sgiliau arbenigol y gall fod eu hangen ar blant a phobl ifanc â nam ar eu golwg (CYP gyda VI) yn ystod eu haddysg os ydynt am gael mynediad at eu cwricwlwm cenedlaethol neu ysgol yn effeithlon ac yn y modd mwyaf annibynnol. Mae'r fframwaith yn glir bod angen i'r meysydd sgiliau hyn gael eu haddysgu, neu eu goruchwylio, gan staff sydd â'r cymwysterau

arbenigol priodol, fel Athro Cymwysedig Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (QTVIs) ac Arbenigwyr Cymhwyso Cymwysedig Cofrestredig (RQHSs). Cynhyrchwyd y fframwaith trwy broses ymgynghori gadarn gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector VI a'r DU ac fe'i lansiodd ym mis Mawrth 2022 ac mae bellach yn perthyn i CYP, eu teuluoedd, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Nid oes unrhyw ffordd benodol i'r fframwaith gael ei ddefnyddio, y bwriad yw i bawb ei ddefnyddio yn y ffordd y sydd yn gweithio orau iddyn nhw. Ac eto, mae'n darparu iaith gyffredin a chyfres o feysydd arbenigol i bawb gyfeirio atynt.

Y Canllaw Rhieni

Ysgrifennwyd y canllaw rhieni gan rieni ar gyfer rhieni ac mae'n cynnwys syniadau ynghylch sut y gall y CFVI gefnogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gydweithio er mwyn sicrhau bod y cymorth gorau a mwyaf priodol ar gael i bob plentyn unigol.

Yn ystod datblygu a lansio Canllaw Rhieni CFVI, codwyd rhai cwestiynau cyffredin; mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r cwestiynau yma i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

Cwestiynau

Sut mae'r CFVI yn cyd-fynd â'r cwricwlwm safonol a ddarperir mewn ysgolion?

Mae'r CFVI yn dwyn ynghyd yr holl sgiliau y gall fod eu hangen ar blant a phobl ifanc â nam ar y golwg ar ryw adeg yn ystod eu haddysg. Mae'r sgiliau arbenigol hynny wedi'u nodi'n glir fel rhai sy'n angenrheidiol i'r dysgwyr gael mynediad i'r cwricwlwm y mae'r ysgol yn ei gyflwyno ochr yn ochr â'i gyfoedion, boed yn y Cwricwlwm i Gymru, y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cwricwlwm er Rhagoriaeth, Cwricwlwm Gogledd Iwerddon neu gwricwlwm yr ysgol ei hun yn achos ysgol arbennig er enghraifft.

Mae'r CFVI yn atgyfnerthu'r angen am arbenigwyr i ddarparu addysgu, mewnbyn arall a/neu oruchwyliaeth yn y meysydd sgiliau hyn. Maent yn

cynnwys QTVIs, RQHSs, cynorthwywyr addysgu arbenigol, unrhyw weithiwr proffesiynol y byddem yn ei ystyried yn wybodaeth arbenigol am nam ar y golwg.

A yw'r fframwaith yn berthnasol i ddysgwyr ag anghenion cymhleth?

Mae'r fframwaith yno ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sydd â nam ar y golwg, 0 i 25, p'un a ydynt mewn lleoliadau prif ffrwd, ysgolion arbennig, lleoliadau VI arbenigol neu'n cael eu haddysgu gartref. Mae'n nodi'r meysydd arbenigol y gall fod angen mynediad iddynt yn ystod eu haddysg er mwyn dod mor annibynnol â phosibl. Fodd bynnag, gall annibyniaeth edrych yn wahanol iawn i wahanol blant ac i deuluoedd gwahanol.

Er enghraifft, maes 3 ar y fframwaith yw cyfathrebu. Ar gyfer plentyn yn y blynyddoedd cynnar prif ffrwd efallai y bydd y ffocws ar leferydd, darllen ac ysgrifennu. Ar gyfer dysgwr ag anabledau ychwanegol, efallai y bydd y ffocws ar ddefnyddio systemau switsh, sganio sain neu ddysgu sut i ddefnyddio system gyfathrebu newydd. Byddai angen mewnbwn arbenigol ar bob un o'r rhain a allai gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fewnbwn gan QTVI, therapydd lleferydd ac iaith ac ati.

Mae gan bob maes o'r fframwaith y potensial i fod yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc â VI, ym mhob lleoliad. Mae'n fframwaith i gefnogi mynediad i ba bynnag gwricwlwm sy'n cael ei ddarparu yn eu lleoliad ac, yn y pen draw, i alluogi person ifanc â VI i symud i fyw ym myd oedolion mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.

A ddylai'r fframwaith gysylltu â chynlluniau cymorth ysgrifenedig fel Cynlluniau Addysg ac Iechyd a Gofal (EHCPs)?

Dylai rhieni gael eu cynnwys yn llawn mewn trafodaethau ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun cymorth ysgrifenedig ar gyfer eu plentyn er mwyn sicrhau ei fod mor unigol a pherthnasol â phosibl. Gallai hwn fod yn gynllun ysgol neu'n un sydd â rhyw statws cyfreithiol fel EHCP, datganiad neu Gynllun Datblygu Unigol. Gall y fframwaith roi

rhywfaint o strwythur i'r sgysiau hynny a, thrwy ddarparu iaith gyffredin i bawb dan sylw, chwalu rhwystrau fel bod pawb yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau neu godi materion. Er enghraifft, gall unrhyw un yn yr ystafell ddewis rhan o'r fframwaith, dywedwch Maes 2: Datblygiad synhwyraidd, a gofyn sut maent yn mynd i'r afael â hynny neu beth yw'r cynllun i'w gynnwys yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Yn ogystal, mae egwyddor 'Mynediad at ddysgu', 'Dysgu mynediad' [1] y fframwaith yn ysgogi trafodaeth am yr hyn sydd yn ei le i hybu annibyniaeth a'r hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r tîm CFVI wedi bod yn falch o glywed bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr eisoes wedi dechrau cysylltu canlyniadau EHCP â meysydd yn y fframwaith.

A yw'r CFVI yn cefnogi cynnwys barn rhieni pan benderfynir ar dargedau a chanlyniadau ar gyfer eu plentyn?

Mae'r CFVI yn cynnwys canlyniadau sampl ar gyfer pob un o'r 11 maes er mwyn helpu pawb yn y tîm o amgylch CYP gyda VI i weithio gyda'i gilydd i osod canlyniadau sy'n iawn ar y pryd i'r unigolyn hwnnw. Mae'n modd o hwyluso gweithio mewn partneriaeth. Mae rhieni a gofalfwyr yn adnabod eu plentyn yn well nag unrhyw un, felly gallant amlinellu'n glir anghenion a dyheadau, rhai'r plentyn a'u huchelgeisiau eu hunain, tra'n realistig fel y gall canlyniadau fod yn heriol ond yn gyraeddadwy.

A yw'n ofyniad cyfreithiol i ysgolion neu awdurdodau lleol gadw at y fframwaith?

Ar hyn o bryd nid yw'r CFVI yn ddogfen gyfreithiol statudol yn y DU. Y nod yn y pen draw yw bod y CFVI yn cael ei gydnabod fel un statudol ar draws y DU felly mae gofyniad cyfreithiol iddo gael ei ddilyn. Wrth i deuluoedd ac addysgwyr ei ddefnyddio, a thrwy waith ymgyrchu a wneir gan y tîm CFVI, y gobaith yw y bydd y CFVI yn cael ei gynnwys mewn canllawiau arfer gorau a pholisïau ffurfiol ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol.

Sut all y fframwaith helpu'r tîm o amgylch CYP gyda VI i fonitro cynnydd?

Nid yw'r fframwaith yn arf tracio cynnydd fel y cyfryw ond mae wedi'i adeiladu ar yr egwyddor o ddatblygu sgiliau i symud tuag at annibyniaeth ac mae hyn yn hybu trafodaeth ynghylch monitro cynnydd. Ar dudalen 11 y canllaw rhieni, mae awgrymiadau o gwestiynau y gallai rhieni fod eisiau eu gofyn, gan gynnwys, "Pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn eleni?" a "Pa gymorth sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes hwn y flwyddyn nesaf?". Gellid gofyn y cwestiynau hyn gan gyfeirio at un o'r 11 maes neu fwy nag un yn dibynnu ar yr hyn sydd bwysicaf i'r unigolyn ar y pryd.

Sut mae'r fframwaith yn helpu CYP â VI i ddod yn fwy annibynnol yn hytrach na dibynnu ar gymorth oedolion??

Esbonnir y model sy'n sail i'r fframwaith ar dudalen 5 y Canllaw Rhieni gyda diagram sy'n helpu i'w wneud yn gliriach. Fe'i gelwir yn 'Mynediad at ddysgu', 'Dysgu sicrhau mynediad' [1] a'r syniad yw y bydd oedolion yn y blynyddoedd cynnar o addysg yn cael llawer o fewnbwn i ddarparu mynediad at ddysgu. Gallai hwn fod yn gynorthwyydd addysgu sy'n cefnogi plentyn i symud o gwmpas yr ysgol yn ddiogel neu gallai fod yn dechnegydd adnoddau yn darparu taflenni gwaith a llyfrau wedi'u haddasu yn ffont 24. Ond dros amser, mae'r pwyslais yn symud i CYP gyda VI yn dysgu sut i'w gyrchu, hynny yw dysgu sgiliau arbenigol i allu cael mynediad at ddysgu yn fwy annibynnol a dibynnu llai a llai ar gymorth oedolion. Ac nid mynediad i'r cwricwlwm yn unig yw hyn, mae'r sgiliau hyn yn caniatáu mynediad i'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, os gall person ifanc ddarllen llyfrau electronig yn yr ysgol, gall ddewis unrhyw lyfr y mae ei eisiau o lyfrgell ar-lein fel Kindle neu Apple Books a'i ddarllen ar gyfer hamdden gartref ar ei lechen.

All y fframwaith fod o gymorth mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth arbenigol ond nad yw'n cael ei gynnig?

Gall oherwydd ei fod yn nodi'r sgiliau allweddol ble mae angen addysg arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg, o fewn yr 11 maes a amlinellir yn y fframwaith. Drwy edrych ar hyn gyda'i gilydd, gall teuluoedd a staff prif ffrwd weld pa feysydd fydd angen mewnbyn naill ai

gan QTVI, RQHS neu arbenigwr arall. Yna gall yr ysgol weithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod yr addysg a'r cymorth arbenigol hwnnw ar gael. Er enghraifft, mae llywio ym Maes 5. Mae hyn yn tynnu sylw pawb at y ffaith bod angen i arbenigwr cymhwyso addysgu hyn. Mae'n debyg na fyddai unrhyw un nad yw'n arbenigwr cymhwyso yn sylweddoli bod amrywiaeth o dechnegau y mae angen eu haddasu ar gyfer yr unigolyn a'u haddysgu. Er enghraifft, mae dilyniannu yn sgil sy'n sail i lywio ac mae angen ei feistroli cyn y gall plentyn ddilyniannu llwybr. Mae arbenigwr wedi'i hyfforddi i nodi pa sgiliau sydd gan blant a phobl ifanc â nam ar y golwg yn barod ac yna addysgu sgiliau newydd, yn y drefn gywir, i adeiladu at y canlyniad dymunol; byddant hefyd yn cefnogi staff prif ffrwd a theuluoedd i atgyfnerthu unrhyw sgiliau newydd trwy ymarfer y tu allan i wersi cymhwyso penodedig.

Sut all y fframwaith gefnogi pontio llwyddiannus?

Mae'r fframwaith yn nodi'r hyn sydd angen ei roi ar waith er mwyn i bontio fod yn llwyddiannus ac mae hyn yn helpu i gael pawb i gydweithio, i wneud cynlluniau, ymhell ymlaen llaw.

Yr allwedd i bontio llwyddiannus, boed hyn o un lleoliad i'r llall, o un cyfnod addysg i'r llall, neu symud y tu hwnt i addysg, yw cynllunio ymlaen llaw. Mae fframwaith y cwricwlwm yn sbardun i edrych i'r dyfodol oherwydd yr egwyddor sylfaenol o ddysgu sgiliau newydd yn barhaus i symud tuag at annibyniaeth a'r atgof cyson a ddarperir gan gynnwys Maes 11: Paratoi ar gyfer bod yn Oedolyn.

Mae tudalen 12 o'r Canllaw Rhieni i'r CFVI yn awgrymu cychwyniadau sgysiau am bontio y gellir eu defnyddio i arwain trafodaethau rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol. Er enghraifft, "Pwy fydd yn trefnu hyfforddiant i staff yn y lleoliad newydd?"

Efallai y bydd rhieni eisiau, yn yr amser cyn y cyfnod pontio, fynd drwy 11 maes y fframwaith gyda'r QTVI i drafod yr hyn sydd angen ei roi ar waith o bob ardal. Er enghraifft, o Faes 5, efallai y penderfynir bod angen hyfforddiant cymhwyso fel y gall y dysgwyr symud o gwmpas amgylchedd newydd yn ddiogel ac yn hyderus. Byddai mynd trwy'r holl feysydd, hyd yn oed as nad yw rhai yn berthnasol, yn sicrhau na fyddai dim yn cael ei golli.

Mae'r fframwaith yn rhoi enghreifftiau o sgiliau annibyniaeth fel coginio a defnyddio cansen fel bod yr ysgolion yn gwybod y dylent fod yn addysgu'r pethau hyn, ond nid yw'n dweud pryd i ofyn i sgiliau gael eu haddysgu. Pan fydd rhieni'n mynd i gyfarfod adolygu, sut maen nhw'n gwybod beth i ofyn amdano bryd hynny a beth i ofyn amdano hwyrach ymlaen?

Mae penderfynu beth sydd angen ei addysgu a phryd yn gymhleth felly bydd trafodaethau ynghylch hyn yn cynnwys y rhiant a gweithwyr proffesiynol. Mae'r fframwaith yn hyblyg i ganiatáu i ddarpariaeth gael ei theilwra i bob unigolyn felly yn bwrpasol nid yw'n nodi pa bryd y dylid ei addysgu, dim ond y dylai'r addysgu gael ei arwain gan arbenigwr cymwysedig addas. Cymerwch yr enghraifft o sgiliau cegin. Ar ôl asesiad i ddarganfod pa sgiliau sydd ganddynt yn barod, gallai CYP gyda VI ddechrau gyda sgiliau bwrdd fel dysgu defnyddio cyllyll a ffyrac a rheoli eu bocs bwyd; pan fyddant yn hyderus gyda hyn, efallai y byddant yn dysgu i arllwys hylifau oer gan ddefnyddio'r dull blaen bysedd ac yna dangosydd lefel hylif fel y gallant gael diod eu hunain; gallai hyn gael ei ddilyn gan hylendid bwyd a dysgu dilyn cyfres o gyfarwyddiadau. Gallai'r rhaglen hon gael ei chyflwyno i un plentyn o'r blynyddoedd cynnar ond efallai y bydd yn fwy priodol i blentyn arall sy'n 6 neu 7 oed.

Y peth pwysig yw sicrhau bod yna bwyslais ar fonitro cynnydd a gweithio tuag at ganlyniadau sy'n gyraeddadwy i unigolyn yn hytrach nag addysgu rhai pethau ar oedrannau penodol. Gall staff arbenigol roi cyngor ar hyn ond dylai rhieni a staff prif ffrwd fod yn rhan o osod canlyniadau a monitro cynnydd.

Mae Maes 10 yn cynnwys chwaraeon a hamdden. A yw hyn yn golygu y gallai ysgolion a gwasanaethau VI helpu teuluoedd yn fwy i ddod o hyd i gyfleoedd i'w plentyn

gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol a allai fod yn hygyrch iddynt?

Mae'r fframwaith yn ystyried addysg yn ei ystyr ehangaf felly mae'n cynnwys meysydd ar gyfer lles a chyfranogiad cymdeithasol. Mae chwaraeon a gweithgaredd corfforol mor bwysig ar gyfer lles ond hefyd ar gyfer pethau fel gwaith tîm, cyfathrebu, symudedd a hyder. Mae cynnydd yn y meysydd hyn yn fanteisiol i addysg yn ei ystyr ehangaf a hefyd yn dod â chyfleoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Yn ogystal â'r chwaraeon a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig fel mater o drefn mewn ysgolion prif ffrwd, mae yna nifer o chwaraeon cynhwysol, y gall plant a phobl ifanc â nam ar eu golwg eu chwarae, fel Pêl-gôl lle mae pob chwaraewr yn gwisgo arlliwiau llygaid i'w wneud yn faes chwarae gwastad. Gellir chwarae pêl-gôl a chwaraeon cynhwysol eraill mewn ysgolion ac mewn clybiau cymunedol a gellir eu chwarae ar unrhyw lefel o ddechreuwyr i elitaidd. Mae nifer o sefydliadau lleol a chenedlaethol yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol a chwaraeon; mae llawer wedi'u rhestru ar wefan [Darganfod Gweithgareddau](#) British Blind Sport; bydd archwiliad cyflym yn dangos pa weithgareddau sydd ar gael mewn unrhyw rhan o'r wlad.

Mae grwpiau gweithgaredd yn rhoi cyfleoedd gwych i CYP gyda VI gyfarfod ac mae nifer o sefydliadau yn cynnal gweithgareddau, er enghraifft, VICTA, LOOK UK a Shape and Share yr RNIB.

Ar dudalen 7 y Canllaw Rhieni, mae'n dweud nad yw pob un o'r 11 o faesydd sgiliau yn berthnasol drwy'r amser, ac eithrio Maes 1. Pam?

Teitl Maes 1 yw 'Hwyluso Byd Cynhwysol' ac mae'n gweithredu fel ymbarél ar gyfer yr holl feysydd eraill. Dyma'r unig faes nad yw'n cyfeirio at sgiliau y gallai fod angen eu haddysgu i blant a phobl ifanc â VI ond yn hytrach mae'n ymdrin ag addasiadau i'w gwneud gan yr oedolion sy'n cefnogi eu haddysg. Er enghraifft, byddai disgwyl i ysgol neu goleg wneud eu campws yn hygyrch, efallai y bydd angen hyfforddiant ar staff i ennill y sgiliau a'r wybodaeth berthnasol i allu darparu profiad addysgol cynhwysol, dylai'r offer dysgu angenrheidiol fod ar gael. Dim ots beth yw

oedran y CYP gyda VI a ni waeth ym mha leoliad y mae, mae angen i'w profiad addysgol fod yn gynhwysol felly mae Maes 1 yn berthnasol i bob CYP gyda VI.

Mae meysydd 2-11 yn nodi meysydd posibl ar gyfer datblygu sgiliau. Bydd y cwricwlwm sgiliau arbenigol yn cael ei bersonoli i gyd-fynd ag anghenion unigolyn felly efallai na fydd angen ymyriadau ar gyfer pob un o'r meysydd bob tro.

Yr hyn y gall rhieni ei wneud

- Lawrlwythwch y Canllaw Riheni a'r CFVI llawn a decheuwch feddwl am sut y gallai helpu chi (www.nib.org.uk/cfvi).
- Dewch o hyd i gyfle i'w gyflwyno i'r ysgol neu'r awdurdod lleol os nad ydynt yn ei ddefnyddio eto. Gallai cyfarfod adolygu fod yn ddelfrydol lle gellir ei ddefnyddio i strwythuro a chefnogi'r sgwrs. Gellir ei ddefnyddio hefyd i dynnu sylw at feysydd i'w hystyried yn bwysig ar y pryd.
- Defnyddiwch e! Y mwyaf y defnyddir y CFVI, y mwyaf tebygol y bydd llywodraethau yn ei gynnwys mewn unrhyw ganllawiau arfer gorau a pholisïau addysg newydd.

Cefnogaeth ar gyfer teuluoedd

Guide Dogs

www.guidedogs.org.uk

Cyswllt: children@guidedogs.org.uk

Look UK

www.look-uk.org

RNIB

www.nib.org.uk

Cyswllt: cypf@nib.org.uk

RSBC

www.rsbc.org.uk

Cyswllt: connections@rsbc.org.uk

VICTA

www.victa.org.uk

Dolenni Defnyddiol

Canllaw Rhieni CFVI a'r ddogfen CFVI iawn: [Curriculum Framework for Children and Young People with Vision Impairment | RNIB](#)

Goalball UK: [Schools & Juniors - Goalball UK](#)

British Blind Sport's [Activity Finder](#)

[Thomas Pocklington Trust](#)

Cyfeiriadau

1. McLinden, M., Douglas, G., Cobb, R., Hewett, R., & Ravenscroft, J. (2016). 'Access to learning' and 'learning to access': Analysing the distinctive role of specialist teachers of children and young people with vision impairments in facilitating curriculum access through an ecological systems theory. *British Journal of Visual Impairment*, 34(2), 177-195.